

Sut i Drefnu a Chynllunio Traethawd

Gall trefnu a chynllunio traethawd wneud y dasg o'i ysgrifennu yn syniad llawer llai brawychus. Nid oes un strategaeth benodol ar gyfer gwneud hyn, gan na fydd yr hyn sy'n addas ar gyfer un myfyriwr o reidrwydd yn addas ar gyfer un arall. Fodd bynnag, mae rhai dulliau profedig sy'n helpu wrth wneud y dasg yn llai o straen.

Bydd sgiliau trefnu a rheoli amser da yn golygu llawer llai o straen. Os ydych yn teimlo eich bod wedi'ch llethu gan y cyfan, cofiwch y daw'n haws drwy ymarfer! Onest!

1 Cyn Ysgrifennu

Cyn i chi ddechrau ysgrifennu, mae'n bwysig eich bod yn asesu ac yn deall y dasg dan sylw yn llawn. Meddyliwch am:

- Beth yn union sydd ei angen? Astudiwch y teitl a nodwch ffocws y traethawd o ran pwnc.
- Astudiwch y teitl a thanlinellwch neu amlygwch eiriau allweddol sy'n dweud wrthyhch SUT i fynd i'r afael â'r traethawd. (Mae ein taflen, *Deall Cwestiynau Traethawd* yn darparu rhestr gynhwysfawr ac esboniad o nifer o'r geiriau allweddol hyn)
- Darllenwch drwy nodiadau darlith ar y pwnc i atgoffa'ch hun.
- Edrychwch ar eiriadur neu lyfrau cyfeirio am gymorth wrth ddeall termau anghyfarwydd.
- Os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, holwch eich tiwtor pwnc.
- Ceisiwch 'daflu syniadau', gan ddefnyddio mapiau meddwl neu nodiadau pwynt (h.y. 1, 2, 3, 4) i gofnodi'r hyn yr ydych yn ei wybod eisoes am y pwnc.

2 Casglu gwybodaeth

Darllenwch drwy amrywiaeth o ffynonellau fel llyfrau testun, cylchgronau, erthyglau papur newydd, a hefyd astudiwch safleoedd rhyngwyd. Er bod yr olaf yn adnodd ymchwil gwerthfawr, mae'n bwysig eich bod yn defnyddio safleoedd dibynadwy. Nodwch nad yw data ar y rhyngwyd yn destun yr un math o archwiliad â llyfrau neu gylchgronau.

- Byddwch yn rhagweithiol wrth i chi ddarllen. Dewiswch y deunydd yr ydych yn ei ddarllen a'i ddefnyddio'n ofalus.
- Cyfeiriwch at restrau darllen a ddarperir gan ddarlithwyr.
- Gwnewch chwiliadau llyfrgell ar y pwnc.
- Defnyddiwch restrau cyfeirio awduron i chwilio am gyfeirnodau ychwanegol.

- Defnyddiwch fynegeion a thudalennau cynnwys llyfrau a chrynodebau mewn cylchgronau yn llawn.
- Brasddarllenwch er mwyn deall hanfod y deunydd.
- Sganiwch y deunydd am unrhyw dermau neu ymadroddion penodol yr ydych wedi'u nodi mewn darlithoedd.
- Mae'n amhosibl darllen neu ddefnyddio popeth felly mae'n ddefnyddiol cyfeirio yn ôl yn gyson at gwestiwn/teitl y traethawd er mwyn cynnal ffocws eich gwaith ymchwil. Gofynnwch i chi'ch hun....A oes gwir angen y wybodaeth hon arnaf? Yna gofynnwchSut y byddaf yn defnyddio'r wybodaeth hon? A yw'n cefnogi/cyferbynnu â deunydd yr wyf wedi'i ddarllen gan awduron eraill?

3 Cofnodi Gwybodaeth

Mae'n bwysig cadw cofnod llawn a chywir o ffynonellau (awdur, dyddiad, teitl, manylion y cyhoeddwr, cyfeirnodau gwefannau a rhifau tudalennau) ar gyfer eich llyfryddiaeth/rhestr gyfeirio ar ddiwedd y traethawd. Mae hyn yn osgoi gwastraffu amser yn chwilio am ddarnau o ddata coll yn ystod cyfnod ysgrifennu eich traethawd.

- Rhestrwch y ffynonellau yr ydych wedi cyfeirio atynt.
- Nodwch syniadau cyffredinol.
- Copïwch unrhyw ymadroddion neu syniadau y byddwch am eu dyfynnu o bosibl.
- Fel y gwnewch wrth gasglu gwybodaeth, wrth gofnodi gwybodaeth, gofynnwch i chi'ch hun ...A oes angen y wybodaeth hon arnaf? Sut y byddaf yn defnyddio'r wybodaeth hon? Eto, mae'n ddefnyddiol cyfeirio yn ôl at y cwestiwn yn gyson er mwyn cynnal y ffocws.
- Gall fod yn syniad da i gadw'r ffynonellau hyn ar wahân, o bosibl drwy eu rhoi mewn ffolderi gwahanol neu eu hamlygu mewn lliwiau gwahanol.
- Treuliwch amser yn ystyried ac yn gwerthuso'r hyn yr ydych wedi'i ddarganfod hyd yma a phenderfynwch, er enghraifft: a yw eich safbwynt wedi newid, a ydych wedi egluro eich dadl, a oes gennych ddigon o dystiolaeth a/neu enghreifftiau? A ydych hefyd wedi ystyried safbwyntiau gwahanol? Mae'r pwynt olaf hwn yn bwysig os ydych am gyflwyno adroddiad cytbwys a dangos gwybodaeth eang o'r pwnc.
- Nawr, tynnwch fraslun o strwythur y gallwch weithio oddi mewn iddo wedi'i seilio ar y wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu.

4 Cynllunio eich Darn o Waith

Gall cynlluniau traethawd eich helpu wrth gynnal eich ffocws. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer cynllunio:

- Penderfynwch ar yr agwedd yr ydych yn bwriadu ei chymryd mewn perthynas â'r pwnc.
- Penderfynwch ar y prif bwyntiau.
- Trefnwch nhw yn rhesymegol – dylai'r pwyntiau ddilyn trefn sy'n galluogi'r darlennydd i weld sut mae un pwynt yn cysylltu â'r nesaf.
- Wrth ochr y prif bwyntiau rhwch yr holl dystiolaeth ategol, enghreifftiau, data, dyfyniadau neu ddarluniau a ddefnyddir i'w cyfiawnhau. Mae angen tystiolaeth ategol dda ar y traethawd er mwyn bod yn argyhoeddiadol.

Gallwch chi benderfynu pa mor fanwl y byddwch am i'ch cynllun fod. Mae rhai pobl yn tynnu braslun o strwythur 'agored', tra bod eraill yn mynd i lawer mwy o fanylder. Isod ceir enghraifft o gynllun cyffredinol.

Enghraifft

Teitl

Cyflwyniad

Prif gorff: Cyflwyno tystiolaeth o blaid, tystiolaeth yn erbyn, a gwerthusiad o'r dystiolaeth honno. Damcaniaethau amgen:- tystiolaeth o blaid, tystiolaeth yn erbyn, gwerthusiad o'r dystiolaeth ac, o bosibl, pam nad yw, neu pam y mae damcaniaethau amgen yn argyhoeddiadol. Eto, gall fod yn syniad da i gadw tystiolaeth mewn ffolderi ar wahân neu ddefnyddio cynllun lliwiau fel y gallwch ddod o hyd i ddarnau penodol o wybodaeth yn hawdd.

Casgliad

Rhestr wirio ar gyfer cynllun traethawd

Gofynnwch i chi'ch hun:

- A oes thema yn rhedeg drwy'r traethawd?
- A oes dilyniant rhesymegol?
- A yw'r cysylltiadau yn amlwg?
- A oes digon o wybodaeth berthnasol i ateb y cwestiwn?
- A oes unrhyw wybodaeth amherthnasol?
- A yw'r cydbwysedd/pwyslais yn briodol?
- A oes ailadrodd?
- A yw'n ateb y cwestiwn?

Cyfeirnodau a darllen pellach:

Cottrell, S. (2003) *The study skills handbook*. 2il arg. Basingstoke, Hampshire: Palgrave MacMillan.

Payne, E. a Whittaker, L. (2000) *Developing essential study skills*. Llundain: Prentice Hall.